# Y Pwyllgor Cyllid

## Cofnodion FIN (3)-08-08

**Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau 22 Mai 2008**
**Amser y cyfarfod: 9.00 - 11.15am**
**Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Cairns (Cadeirydd), Gorllewin De Cymru
Angela Burns, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Alun Davies, Gorllewin a Chanolbarth Cymru
Ann Jones, Dyffryn Clwyd
Dai Lloyd, Gorllewin De Cymru
Jenny Randerson, Canol Caerdydd
Joyce Watson, Gorllewin a Chanolbarth Cymru

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

John Grimes, Clerc
Abigail Phillips, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

**Eitem 2**

Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Dennis Gunning, Cyfarwyddwr Dros Dro, APADGOS
Lynne Hamilton, Cyfarwyddwr, Grŵp Gwella Busnes a Buddsoddi Adnoddau APADGOS

**Eitem 3**

Steve Thomas, Prif Weithredwr CLlLC
Y Dr Chris Llewellyn, Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes, Hamdden a Gwybodaeth CLlLC
Daisy Seabourne, Swyddog Dysgu Gydol Oes CLlLC
David Hopkins, Cadeirydd ADEW a Chyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Caerffili

**Eitem 4**

Sue O'Halloran, Cadeirydd, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon
Iwan Guy, Cyfarwyddwr Dros Dro, NAHT Cymru
David Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanbedr-y-fro

### Eitem 1: Ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mohammad Asghar ac Alun Ffred Jones. Dirprwyodd Dai Lloyd ar ran Alun Ffred Jones.

### Eitem 2. Yr Ymchwiliad i Ariannu'r Cyfnod Sylfaen: y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (9.00 - 9.45)

2.1 Trafododd y Pwyllgor ariannu'r Cyfnod Sylfaen gyda'r Gweinidog.

2.2 Bydd Clerc y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog i grynhoi'r materion a godwyd yn ystod gweddill y cyfarfod. Cytunodd y Gweinidog y byddai'n ymateb i'r rhain o fewn 10 diwrnod.

### 3. Yr Ymchwiliad i Ariannu'r Cyfnod Sylfaen: tystiolaeth Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (ADEW) a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) (9.45 - 10.30)

**Papur:**

FIN(3) 08-08 (p1) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan CLlLC ac ADEW

3.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan CLlLC ac ADEW.

3.2 Cytunodd CLlLC i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn nodi faint o gyllid cyfalaf ar gyfer y blynyddoedd cynnar a oedd wedi'i wario ar bob ysgol, wedi'u rhestru yn ôl ardaloedd yr Awdurdodau, ers dechrau'r grant.

3.3 Cytunodd CLILC i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor yn nodi pa ddata, sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen, sydd ar gael i Lywodraeth y Cynulliad, pa mor aml y mae'r data'n cael ei ddiweddaru a ble mae dod o hyd i'r data.

Ataliodd Cadeirydd y Pwyllgor y cyfarfod dros dro am 10:47am.  Ailddechreuodd y cyfarfod am 10:52am.

### 4. Yr Ymchwiliad i Ariannu'r Cyfnod Sylfaen: tystiolaeth Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) (10.30 - 11.15)

**Papurau:**

FIN(3) 08-08 (p2) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr NAHT
FIN(3) 08-08 (P3) tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan yr NUT

4.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth oddi wrth yr NAHT a David Griffiths, Pennaeth Ysgol Gynradd Llanbedr-y-fro

### 5. Diwedd y cyfarfod

5.1 Diolchodd y Cadeirydd i Dai James, ymchwilydd y Pwyllgor, am ei waith caled, gan ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**